

## Cyngor Mis Ebrill

Cyngor Cymuned Pennal

Cynhaliwyd pwyllgor or Cyngor nos Fawrth 28ain o Ebrill 2017 am 7.00 yn y ganolfan.

Derbyniodd y Clerc saith dogfen or Cyngorwyr yn datgan derbyn eu swyddi. aethpwyd ymlaen i drafod a derbyn y cod ymddygiad byddair clerics yn anfon copi trwy ebost ir Cyngorwyr

Agorwyd y pwyllgor gan y cadeirydd a croeshawyd aelod newydd ir Cyngor sef Mr James Brunton.

Trafodwyd y gyllideb ac fe gytunwyd eu bod yn dderbyniol am y tri mis nesaf.

Cytunwyd i ofyn wrth Mr John Roberts i wasanaethu drost y Cyngor fel archwilydd mewnoletunwyd hefyd i dalu am archwiliad 2015-16

Roedd y cofnodion wedi eu dosbarthu a cynigiwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi

Coed ger Hafoty sydd perchen i Dr John Parry MBE

Derbyniwyd llythyr yn rhoi adroddiad o gyflwr y coed diellir bydd gwaith yn mynd i gael eu wneud yn mis Hydref i wneud y coed yn ddiogel.

Draen ar draws y ffordd ger mynediad i Felindre Estate. Byddai Cyngor Gwynedd yn eu harchwilio

Inswirans derbyniwyd ebost yn ein hysbysu bod angen adnewyddu yr inswirans ond gofynnodd y clerics am gopi caled cyn adnewyddu.

Pont ar ddyfi . Pont Newydd

Dal dim gwybodaeth ar eu chynlluniau.

Fynwent y Plwy

Roedd angen adroddiad ar eu chyflwr ag hefyd oes angen gwaith arni diellir bod rhai cerrig angen eu harchwilio ai atgyweirio.

Treth ar werth derbyniwyd £1909 yn ol.

Cais Cynllunio.

Derbyniwyd rhybudd o Apel wedi eu chyflwyno i Weinidogion Cymru ynglyn ar datblygiad codi ty fforddadwy Fflur Cwrt Pennal roedd penderfyniad y Cyngor yn sefyll fel or blaen dim gwrthwynebiad.

Derbyniwyd dyddiad yr archwiliad mewnol 12ed o Orfffenaf.2017.

Drych newydd i fynedfa maes parcio Cwrt penderfynwyd archebu un gan fod y fynedfa yn un beryglus.

Cais Cynllunio Cefn Crib ymestyn tymor safle carafanau statig a teithiol 0 8mis i 9 mis nid oedd gwrthwynebiad.Tra fu y Cyngor yn trafod fe aeth y clerch allan gan eu bod yn datgan diddordeb fe arwyddwyd ffurflen yn datgan hyn.

Codwyd y mater eto na roddwyd llygaid cathod yn ol ar y ffordd o Penrhyndyfi fynny at Marchlyn eto er bod gwaith wedi eu wneud mewn rhai manau byddai Dewi Owen yn edrych i mewn ir mater.

Cytunodd y Cyngor i gael Hysbysfwrdd newydd ir pentre a hefyd drych newydd yn Cwrt.

Dyddiad Pwyllgor Blenyddol Mai 26 ain 2017 yn Ystafell Sychan yn y Ganolfan.

Cwyn am yr angen i dori sietyn sydd yn gwyro ir ffordd ger rhif 1 Tainewyddion byddair clerch yn cysylltu ar perchenog.

Byddair Cyngor yn gwneud ymholiadu am gael Bin baw cwn i Cwrt ar ffordd Penmaen.

Cafwyd adroddiad oddiwrth Rhys Parry fel cynreichiolydd y Cyngor ar bwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Pennal Cafwyd adroddiad camoladwy iawn i archwyliad adeuladaur ysgol roedd y Cyngor yn hynod o falch o glywed y newyddion da.

Cyngor Pennal

Dyma enwau y saith Cynghorwr am y 5 mlynedd nesaf.

Meirion Roberts Gyllelllog

Rhys Parry, Esgairweddan

Aled Rees. Penmaendyfi

Keneth Griffiths Ty Gwyn

William Rees Minafon

Hywel Evans Marchlyn

James Brunton Pennal

Cynghorydd Sirol Dewi Owen Esgairgyfela Aberdyfi.